

CARNEDDAU

Y Carneddau yw'r mynydd-dir mwyaf yng Ngogledd Cymru ac maent yn nodedig am eu hamodau gaeafol garw. Yn ystod y cyfnod Neolithig roedd yr ucheldiroedd yn boblog iawn yn ystod cyfnod o gynhesrwydd hinsoddol; parhaodd datgoedwigo a phori'r tir i mewn i'r Oes Efydd ac mae nifer o aneddiadau a systemau caeau i'w canfod yn eithaf uchel ar y llethrau. Mae'r term Carneddau yn lluosog o garnedd 'carnedd, crug, twmwlws neu dwmpath' ac mae'n adlewyrchu presenoldeb y llu o garneddau coffa, sydd bellach yn adfeilion ac wedi'u lladrata, i hynafiaid y bobl ar ben brynau ac ysbardunau'r ardal fynyddig hon.

Cysylltodd archeolegwyr cynnar rai o'r carneddau â mannau gwyllo neu gadarnleoedd caerog Tywysogion Gwynedd. Ysgrifennodd Hugh Derfel Hughes, yn ei Hynafiaethau Llandygai a Llanllechid (1866) '..... cawn olion o wylfaau, (Watch places) megis ag y ceir ar Foelyci dichion mai carneddau oedd amryw ohonynt ar y dechrau'. Credai Rhys Goch o Eryri mai bedd Rhica neu Rhita Gawr oedd Carnedd Llywelyn ac nid copa'r Wyddfa. Cynigiodd eraill fod carnedd isaf yn gofeb i Trystan ap Tallwch, Syr Tristram yn Rhamantau Arthur.

Carnedd Llywelyn 1064m SH 684644

Naill ai, enw sy'n atgofio Llywelyn Fawr (Llywelyn ap Iorwerth) 1173-1240; roedd yn Frenin ar Wynedd i ddechrau ac yn hwyrach rheolwr Gymru gyfan drwy gyfuniad o ryfela a diplomyddiaeth. Neu, os nad Llywelyn Fawr, tybed os ei wŷr Llywelyn ap Gruffudd (Llywelyn ein Llyw Olaf) 1223-1282 sy'n cael ei atgofio yn yr enw. Fe welir carnedd yr Oes Efydd ar y copa; carnedd gylchol wedi'i hadeiladu o gerrig, sy'n mesur oddeutu 8m mewn diamedr ac mae'n dal i fod hyd at 1.5m o uchder. Mae cleddyf a sawl offer Oes Efydd arall wedi eu darganfod ar lethrau'r mynydd. Ond beth oedd yr hen enw, cyn unrhyw Lywelyn? Yr oedd sawl un yn credu mai carn Rhita Gawr sydd i'w weld yma. Carnedd Llewelin 1700 Llawysgrifau Llyfrgell Genedlaethol, Carnedd Lywelyn 1719 Glossarium Antiquitatum Britannicum, Karnedd Llewelyn 1722 William Camden Britannia, Carnedd Llewelyn 1795 Map John Evans, Carnedd Llewelyn 1838 AO.

Carnedd Dafydd 1044m SH 663630

Mae rhai yn cefnogi'r syniad mai ar ôl Dafydd ap Gruffudd 1238-1283, brawd Llywelyn ap Gruffudd; ond, fe deyrnasodd am lai na blwydd. Felly, mae'n debygol bo'r enw yn atgofio mab Llywelyn Fawr, sef Dafydd ap Llywelyn 1212-1246. Ceir carnedd Oes Efydd wrth ymyl y copa Carnedd Dafydd. Mae'n garnedd gylchol wedi'i hadeiladu o gerrig, hyd yn oed nawr yn mesur tua 12m mewn diamedr a hyd at 2m o uchder. Mae llawer o aflonyddwch wedi bod yn y gorffennol, gan gynnwys adeiladu piler triongli AO sydd bellach wedi'i ddinistrio a sawl lloches gysgodol. Karnedd Dhavydh c.1700 Parochialia, Karnedd Dhafydd 1719 Glossarium Antiquitatum Britannicum, Karnedd Dhavidh 1722 William Camden Britannia, Carnedd David 1795 Map John Evans, Carnedd Dafydd 1838 AO.

Pen yr Ole Wen 978m SH 656620

Y ffurf a dderbynnir heddiw yw *pen* 'brig, copa' + *yr* + (g)*ole*(ddf) 'y llethr' + (g)*wen* 'gwyn, llachar'. I'r rhai a oedd yn byw yn y cymoedd a'r dyffrynnoedd cyfagos, y llethrau uchaf y mynydd oedd y cyntaf i dderbyn unrhyw heulwen ar ben bore; ac fe fyddai'n amlwg, enwedig yn y gaeaf. Pen-yr-Oleu-wen 1838 AO, Pen yr Olau Wen 1888 map 6" AO.

Y Foel Grach 976m SH 689659

Defnyddir y gair *crach* i ddisgrifio 'darn gwael o dir, tir crystiog', o'r Brythoneg **craccā*- 'cramen croen,' a hefyd mae yn berthnasol i fryn creigiog a diffwrth. Yma fe geir brigiad o greigiau ar y copa a mwy nac un â chors neu fawn sych gydag arwynebedd crachog. Mae carnedd o'r Oes Efydd ar gopa Foel, a'i sylfaen yw'r brigiad creigiau y mae cerrig wedi'u pentyrru arno i ffurfio carnedd garw sydd wedi ei aflonyddu.

Yr Elen 962m SH 673651

Enw mynydd sydd braidd yn anodd ei ddehongli; fe all *elain* 'carw ifanc, ewig', cyfystyr a'r Wyddeleg *elit* o'r Gelteg **elani*, fod yn bresennol. Tra bo Elen yn enw personol (o'r Lladin *Helena*), efallai llygredd ffurf hynafol sydd wedi digwydd. Os oedd y gair moel yn bresennol yn yr enw ar un adeg, fel y nodwyd gan Thomas Pennant, gall gryfhau'r cysylltiad at yr elfen **el-* 'ongl, plygu' [fel yr *el-* yn elin], i adlewyrchu ffurf onglog amlwg y mynydd. Moel yr Elain 1783 Thomas Pennant, Yr Elen 1809-11 Edmund Hyde Hall, Description of Caernarfonshire, Yr Elen 1838 AO.

Y Foel Fras 942m SH 696682

Mae sawl ystyr i'r gair, fel *bras* 'tew, trwchus, cryf'; ond y tebygrwydd yw mai *bras* 'anodd, garw' sydd. Y Foel Fras 1838 map AO. Foel Fras ar fapiau AO cyfoes.

Y Garnedd Uchaf 926m SH 687669

O'r Dwyrain mae yn edrych yn uwch na'r mynyddoedd eraill yn yr ardal; hen enw arall ar y mynydd, fel y cofnodwyd ar Fap Degwm 1848 oedd Carnedd Ladron. Yr oedd ffurf debyg, sef Carnedd y Lladron wedi'i defnyddio'n gynharach gan Thomas Pennant; lladron yw'r lluosog lleidr. Mae sawl llwybr hynafol yn croesi'r mynydd; oedd y mynydd yn fan da er mwyn ladrata. Wedi ei ail enwi yn 2009 fel Carnedd Gwenllïan. Carnedd uchaf 1795 Map John Evans.

Yr Aryg 860m SH 680673

Y tebygrwydd yw mai *ar(dd)* 'uchder, uchel' + *-ig* olddodiad bachigol (fe geir afonig o afon + *-ig*); yn hytrach na, *-ig* fel olddodiad ansoddeiriol i ddynodi 'tebygrwydd i, cysylltiedig â', olddodiad sy'n gysylltiedig a *-og*. Yn hytrach na'r elfen *ar-* 'goruwch' + *(g)rug*; neu, *(c)rug* fel dywedir rhai.

Llwytmor 849m SH 687693

Fel arfer y lliw sydd yn gysylltiedig â'r term *llwyd* 'llwydwyn'; fodd bynnag, ond ar un adeg y gall ddisgrifio lliw cochlyd neu frown fel llwyd. Yma, oherwydd ei agwedd mae'r llethrau gogleddol yn aml yn gysgodol; felly, mae'n debyg bod *llwyd* 'tywyll' + *mor* 'mawr, mawr' sydd. Ynglŷn â'r ail elfen, nid *môr* 'corff o ddŵr' sydd; mae'r gair yn gymharol â Chernyweg Canol *mur*, Hen Lydaweg *mor*; Hen Wyddeleg *már*; *mór* 'mawr'. Llwytmawr 1198 Siarter Aberconwy, Llwytmor 1838 AO.

Pen yr Helgi Du 833m SH 698630

Pen 'copa' + *helgi* 'ci hela' + *du*; yn ôl y chwedl dim ond helgi *pur ddu* heb unrhyw wallt gwyn, a alla obeithio dal gwrach a oedd wedi trawsnewid ei hun yn ysgyfarnog. Roedd map cyntaf yr AO 1838 yn dangos yr enw fel Pen helig, a wedyn yn hwyrach fel Pen Helyg; enwau sy'n cyfeirio at y coed tylwyth *salix* sef yr helig, helyg a geir fel arfer ar dir gwlyb. Ffurf arall ar un adeg oedd Pen Helyg Du. Pen helig AO 1838, Pen Helyg 1840-80 6" AO.

Bera Bach 807m SH 672678

Bera 'pentwr gwair, twmpath' + *bach* 'is, llai', yn ychydig yn uwch na'r mynydd Bera Mawr; naill ai, gwall wrth lunio'r mapiau cyntaf; neu'r, persectif o'r dyffryn syn gwneud i'r mynydd edrych yn llai. Mae yna nifer o aneddiadau cyn-hanesyddol yng nghymoedd ystlys y mynydd, gyda rhai ohonynt newid i hafotai 'llety haf' i fugeiliaid ac eraill yn datblygu fel corlannau ddefaid. Bere Fach 1783 Thomas Pennant, Bera bach 1838 AO, Berre Bach 1840 Map Degwm.

Pen Llithrig y Wrach 799m SH 716623

A'i chop a sydd yn *llithrig* 'sglefriog, slic, llyfn' sydd yma; neu, oes llygriad y gair *llethrig* 'goleddf, llechwedd, esgyniad serth'? Tra mae *gwrach* yn dynodi 'hen ddynes, hudoles, dewines' mae'r gair yn gysylltiedig â ffurf blyg neu gam hefyd. Ond, ar lafar mae'r gair *llethrig* 'llethr, ochr bryn, llethr serth' yn agos at *llithrig*. Hefyd, fe all y term *gwrach* 'ysgubau o redyn neu wellt', a ddefnyddir fel rhan o do ar das gwair sgwâr, cyn rhoi'r gwellt arno i orffen; roi atgof o ffurf das wair.

Tybed os arwyddair cyfriniol neu gysegredig i'r enw mynydd sydd, mae'r mynydd uwch ddyffryn o'r enw Cwm y Bedol Arian; y bedol arian yw'r hen leuad, ac mae gwrach yn gysylltiedig â'r hen leuad. Erbyn hyn, Cwm y Bedol Arian yw'r enw ar y maen cyn-hanesyddol, a rhoddir enw'r dyffryn bellach fel Cwm Tâl y Braich, sef enw'r fferm. Llithretewrath 1198 Siarter Aberconwy, Pen-llithrig-y-Wrach 1838 AO.

Bera Mawr 794m SH 675683

Y lleiaf o'r ddau fynydd gyda'r enw *bera* 'mwdwl, pentwr', yr enw mawr oherwydd ei fod yn edrych yn uwch o'r dyffryn. Mae yna air *bera*, *bery* 'barcud' ar gael yn y dirwedd hefyd, mewn rhai mannau fel Craig y Bera; ond, yma mae'r enw yn cyfeirio at ffurf y mynyddoedd yn hytrach na'r aderyn. Yn agos i'r mynydd, yn ôl pob tebyg yn cuddio yn un o'r aneddiadau hynafol, y cipiwyd Dafydd ap Gruffudd, ychydig uwchben ei gartref brenhinol yn Abergwyngregyn. Bere Mawr Thomas Pennant, Bera mawr 1838 AO, Berre Mawr 1840 Map Degwm.

Drum 770m SH 708696

Mae'r term *drum*, *trum* 'crib mynydd neu fryn, copa, cefn' yn un addas yma. Gelwir y copa yn Garnedd Pen-y-Dorth Goch ar fapiau'r AO a'r enw ar fap degwm 1840 oedd Dorth Coch. Mae yna garneddau mawr o'r Oes Efydd ar ben y mynydd, a darganfuwyd nifer o nodweddion yr Oes Efydd a darganfyddiadau o'r Oes Efydd ar y llethrau isaf yn yr ardal. Drym yr garneth 1600 Llawysgrifau Baron Hill, Drum 1838 AO.

Y Drosogl 758m SH 664680

Y term *trwsgwl*, *trysgol* 'garw, anodd, lletchwith' yw rhai o ystyron y term topograffig ac mae yna lawer o enghreifftiau o'r gair ledled Cymru. Yn gyffredinol, rhaid penderfynu a yw'r term yn cyfeirio at dir heb ei drin neu at dir a oedd yn anodd ei groesi. Efallai fod yr enw'n cyfeirio at y darnau o dir caregog sydd yn yr ardal. Fodd bynnag, os edrychir ar fap modern yr AO, gellir gweld trac hynafol yn codi o'r Fenai, yn mynd o amgylch Moel Wnion i fynd i fyny at Fera Bach a Y Garnedd Uchaf; y mae'r rhan serthaf ac anoddaf o'r llwybr hynafol ar ochrau Y Drosogl; felly, fe roedd yn nodweddiadol. Y Drosogl 1838 AO.

Y Fawnog Ddu 738m SH 709654

Ar fapiau cynnar yr AO Fawnog Du oedd yr enw; y term *mawn* 'cors, tir gwlyb' + *-og* 'cysylltiad ag'. A fyddai'r llechweddau yn dywyll, yn ddu gyda lliw mawn? Yr enw arall a welir gerllaw o hyd yw Gledrffordd, mae gan y term *cledr* sawl ystyr; os *cledr* 'postyn' + *ffordd* 'llwybr', fe all ddynodi trac wedi'i farcio â physt a cherrig neu sarn coed ar draws y tir corsiog. Dyma'r enw sy'n ymddangos ar fapiau cynharach yr AO ar gyfer y mynydd, nawr ychydig ymhellach i'r De ger yr hen lwybr drwy'r mynyddoedd. Fawnog Du 1838 AO.

Carnedd y Ddelw 693m SH 708705

Dyma enw'r garnedd neu'r domen fawr o gerrig tua 20m o led, a oedd â chist yn ei chanol ar un adeg. Y tebygrwydd yw mai enw eithaf diweddar sydd, gyda'r gair *delw* 'portread, cerflun' yn cyfeirio at y ddelw aur tua 125mm o hyd y dywedwyd iddi gael ei darganfod yma tua 1818. Mae'r ddelw wedi ei cholli ers amser maith.

Cerrig Gleision 678m SH 730615

Cerrig 'creigiau' + *gleision* - lluosog o glas 'llwyd, llwyd-las' sydd yn cyfeirio at y cerrig, a nid glas 'morlas' neu gwyrd'.

Y Gyrn Wigau 643m SH 677654

Wigau yw lluosog y gair *gwig* 'coed, coedwig, rhigol', ac ar un adeg roedd coedwigoedd yn ymestyn hyd at 600m. Rhaid penderfynu pa ystyr yw *curn*, *cyrn* 'pentwr, twmpath; côn'. O sawl safbwynt enw sy'n cyfeirio at fryn ffurf côn yn hytrach na thomen neu domen gron sydd. Wrth droed ei

lethrau deheuol mae ardal fawr o gaeau a strwythurau cyn-hanesyddol, yn ymestyn dros ardal, bron i 500m o hyd o tua 250m. Fe'i rhoddwyd yn wallus fel Gyrn Wigan 1838 AO, Gyrn Wigau ar fapiau presennol yr AO.

Pen y Castell 623m SH 724689

Pen 'copa' + *castell* 'caer'. Mae'r disgrifiad o fryn fel castell yn un weddol gyffredin. Ond o ddiddordeb yma yw'r gyfres o enwau 'amddiffynnol' sydd ar y copaon ar hyd y trum sy'n ymestyn i lawr tua dyffryn y Conwy. Pen y Castell yw'r un uchaf; ymhellach i lawr mae Pen y Gadair (SH 738693) ac yn islaw Pen y Gaer (SH 750693). Pen-y-castell 1838 AO.

Tâl y Fan 610m SH 729727

Yr elfen *tâl* 'lled, y pen pellaf, pen draw' + *ban* 'uchder, pwynt'; yn disgrifio lleoliad ar ddiwedd y gefn. Talyfan 1810 Richard Fenton Tours in Wales

Pen y Cowlyd 610m SH 733622

Pen 'copa' + *y* + *cowlyd* - enw sy'n tarddu o'r llyn ac yn enw personol ym mhob tebyg. Ond yr oedd rhai yn tybio *cawn* 'cyrs, corswellt' + *llwyd*; eraill *caw* 'cengl' + *llwyd* sydd hefyd awgrymu band llwyd fel yn y rhibin o glogwyni a welir yno. "ad stagnum Cawlwyd" 1198 Siarter Aberconwy, Cowlyd 1746 Swyddfa Cofnodion Sir Gaernarfon, cowlid/cowlyd 1803 Llawysgrifau Carter Vincent.

Y Foel Lwyd 603m SH 720724

Moel 'bryn conigol' + *llwyd* 'tywyll'; sydd yn ffurfio un ochr i fwch pwysig yn yr ucheldir o'r enw Bwlch y Ddeufaen. Mae yna lwybr hynafol yn mynd drwy'r bwlch a ddefnyddiwyd yn ddiweddarach gan y Rhufeiniaid. 'Foel-lwyd 1838 AO.

Moel Wnion 580m SH 649697

Enghraifft dda o'r term *moel* 'bryn crwn', gyda *chopa crwn* esmwyth yn newid yn raddol i lechweddi serth. Y tebygrwydd yw mai'r enw personol Gwnïon, un sy'n tarddu o *gwyn* + *-ion* 'gwyn iawn' sydd o bob tebyg. Mae'r copa yn safle carnedd o'r Oes Efydd sydd ar chwâl. Rhaid nodi bod gwnïon hefyd yn un lluosog y gair *gwyn*. Moelwynnion 1783 Thomas Pennant, Moel Wnion 1838 AO.

Braich y Gwenoliaid 580m SH 727640

Braich 'cefnen, trym' + *y* + *gwenoliaid*, sef lluosog y gair *gwennol* 'aderyn mudol'. Creigiau'r Gwenoliaid oedd enw lleol arall, ond nid oes tystiolaeth o unrhyw enw i'r copa ar y mapiau Ordnans. Yr unig enw sy'n ymddangos yn agos i'r copa ar y mapiau i'w Craig Ffynnon; tra bo'r enw yn y Siarter Aberconwy 1198 fel Carrecgwenolyod.

Yr Orsedd 559m SH 694714

Mae'r gair *gorsedd* yn golygu 'sedd, eisteddfa' a dyma'r ystyr y mae llawer o bobl yn cysylltu â'r enw; fodd bynnag, rhaid cofio bod yna ddefnydd arall, sydd llawer mwy tebygol yn y dirwedd. Gellir defnyddio'r gair orsedd ar gyfer amrywiaeth o nodweddion, gan gynnwys 'twmpath o bridd, twmpath, bryn, bryncyn' yn ogystal â 'tomen, tumulus, bedd'. Mae'n gysylltiedig â chrugiau neu tumulii, ond weithiau ffurf y bryn sy'n atgoffaol o un o'r nodweddion. Yr Orsedd 1838 AO.

Pen Bryn Du 557m SH 698711

Pen 'copa, diwedd' + *bryn* 'bryncyn' + *du* 'duliw, tywyll'; ond nid oes copa amlwg, mae'r enw yn cyfeirio at y trum cysgodol sy'n ymestyn i lawr o Drum. Pen Bryn-du ar fapiau AO cyfoes.

Craig Wen 548m SH 729603

Craig 'maen' sydd yn gysylltiedig gyda'r nifer o enwau (*g*)wyn/(*g*)wen 'golau, llachar' sy'n dangos perthynas â llechweddau gydag agwedd deheuol. Mae'r term *gwyn* yn newid i *gwen* ar ôl y term

benywaidd, craig.

Moel Eilio 546m SH 747659

Moel 'bryn pwyntiedig neu conigol' + *Eilio*, *Eiliaw* – enw personol, sef ffurfiau amrywiol ar yr enw *Eliudd*, *Eilydd*; yr oedd yna *St. Eliud* ar un adeg [a elwir fel arfer yn *Teilio* (*Tŷ* + *Eilio*)].

Y Gyrn 542m SH 647688

Gweler sawl ystyr i *gurn*, *cyrn* 'pentwr, crug, carnedd; côn, pyramid, tŵr pigfain; mwdwl'; mae hi'n bron yn sicr mai dynodi ffurf 'côn' y bryn. Mae defnydd o'r fannod yn gwneud yr enw yn un arbennig. Gern 1783 Thomas Pennant.

Y Foel Ganol 533m SH 688715

Nid *moel* 'bryn' cywir ond spardun yw'r nodwedd. Yr ystyr arferol ar gyfer canol 'pwynt canolog, canolbwynt', y mae rhwng *Y Foel Dduarth* ag *Yr Orsedd*.

Pen y Gader 507m SH 734694

Mae lleoliad y *pen* 'copa' yma, fel rhan o gefnen sy'n arwain i lawr o'r Trum, yn ddiddorol ac yn bwysig. Yn rhan uchaf y gefnen fe geir *pen/copa* o'r enw *Pen y Castell* (SH 724689) ac ar ddiwedd y gefnen fe welir y *gopa* *Pen y Gaer* (SH 750693), ac mae *Pen y Gader* rhwng y ddau. Felly, ar ei hyd, mae tri ystyr amddiffynnol yn olynol, *castell* 'castell', *cader* 'cadarnle' a *chaer* 'amddiffynfa'. Mae hyn yn cryfhau'r ddadl mai'r ystyr y gair gosodiadol **cader*, **cater* yw 'cadarnle, caer garreg'; un sydd yn awr yn y geiriaduron yn ddisgrifiad y gair *cadair* 'safle amddiffynnol'.

Mae'r ffurfiau *Bryn y Gader Chwith* (1775) a *Bron y Gader Chwith* (1795) i'w gweld ar fferm isod yn *Swyddfa Cofnodion Sir Gaernarfon*. *Pen y gader* 1838 OS, *Pen y Gader* AO 6" 1840-80. Dim ond ar fapiau AO modern y mae *Pen y Gadair* i'w ganfod. *Pen y Gader* 1838 OS, *Pen y Gader* AO 6" 1840-80, rhaid nodi mai *Pen y Gader* sydd gan yr Athro J Lloyd-Jones yn ei *Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon* 1928.

Cefn Cyfarwydd 502m SH 752631

Cefn 'cefnen' + *cyfarwydd* 'adnabyddus, profiadol', yn dangos synnwyr tebyg i gynefin, sef tir mynydd y mae'r ddiadell yn sefydlog? Nid llygredd cyfar 'cytunedig, cyd-aredig'. *Cefn Careadwydd* 1838 AO.

Crimpiâu 475m SH 733595

Tybed os benthyciad o'r gair Saesneg *crimp*, o'r Hen Saesneg *chrimphau* 'yn gribog'; neu, ffurf hwyrach y gair. Yn y tirwedd dynodwyd y gair *crimp* sawl nodwedd ffisegol 'trum, esgair, ysgafell'; mae pob un o'r nodweddion ar lethrau'r bryn.

Yn ôl pob tebyg, enw newydd iawn, oherwydd nad yw'n bodoli ar argraffiad cychwynnol mapiau'r Arolwg Ordnans o'r ardal; naill ai fersiynau 1" na 6". Mae mapiau 1" argraffiad cyntaf 1838 yn cynnwys yr enw *Clogwyn Mawr* ar hyd y grib. Tra bo'r grib wedi'i henwi fel *Ganallt* ar y *Mapiau Degwm* cynnar; mae'n debyg iawn mai ffurf anghywir yr enw *Geuallt* sydd. Roedd annedd o'r un enw ar un adeg, ac mae'r enwau *Creigiau Geuallt* a *Nant y Geuallt* dal ar y mapiau heddiw. Hefyd, mae'r enw *Clogwyn Mawr* dal i'w weld ar y mapiau; fodd bynnag, mewn dau leoliad - ceir un defnydd fel enw ar y *clogwyn* ym mhen *Gogleddol* y *crib*, tra bo'r llall i'w gael ar ei ben deheuol. Nid yw'r term *Crimpiâu* yn ymddangos ar fapiau'r Arolwg Ordnans tan gyfres 1937 o 1:25,000, hyd yn oed wedyn mae ar y lethrau ochr ac nid fel enw ar gyfer y *copa*.

Penmaenmawr 472(?)m SH 703754

Pen 'copa' + *maen* 'craig' + *mawr* 'eang'. Nid oes llawer o'r *copa* ar ôl oherwydd y chwarela cerrig palmant a graean; yr oedd yna *gaer* ac anheddiad trawiadol Oes yr Haearn ar y *copa* ar un adeg.

Roedd yna dau enw ar y copa ar un adeg, sef Pen Dinas a Braich y Ddinas, yn dangos safle'r *dinas* 'cadarnle'. Penmayne Maur & Penmain Vaure 1536-9 Leland.

Llefn 443m SH 641686

Ffurf ar y gair *llyfn* 'esmwyth, di-rwystr'; disgrifiad da ar fryn crwm esmwyth.

Y Foel Dduarth 441m SH 681714

Moel sy'n edrych yn grwm o un ongl, neu yn un pigfain o ongl arall; *du* 'tywyll' + (*g*)*arth* 'crib mynydd, pentir, bryn', sydd yn gymharol â'r Hen Wyddeleg *gart*. Yn hytrach na *garth* 'amgeufan, gardd', y gellir ei gymharu â'r Hen Wyddeleg *gort* 'amgaefan', Llydaweg *garz*. Y Foelldduarth 1838 map AO, Moel Ddiarth (sic) Myrddin Fardd.

Cras 440m SH 652708

Copa isel ar ddiwedd gefnen sy'n ymestyn i lawr o Foel Wnion. Mae'n debygol bod y gair *cras* 'crin, llosg, man wedi sychu' yn cael ei ddefnyddio oherwydd priddoedd tenau. Ycras 1390 Plwyf Conwy, Y cras 1403.

Moelfre 435m SH 717744

Mae yna nifer o enwau moelfre o amgylch Cymru, ac mae bron pob un ohonynt mewn mannau eithaf amlwg. Yr elfen gyntaf yw y gair *moel* gyda'r synnwyr 'llwm, crwm' [y tro yma]; fodd bynnag, yr ail elfen yw ffurf treiglyddig *bre* 'bryn, uchder'; neu, 'pentir'. Mae'r elfen bre yn gysylltiedig â'r Wyddeleg Canol *bri*, i'w weld hefyd yn y Gauleg **briga*; i gyd yn deillio o'r Indo Ewropeaidd **b_hiergh₁* 'mawr, tal, bryn'. moylvrey 1577 Llawysgrifau Mostyn.

Clip yr Orsedd 429m SH 712747

Mae *clip* 'cliff', sydd yn deillio o'r Almaeneg *klippe*, yn weddol syml; mae gan y gair gorsedd sawl ystyr posib, sef 'twmpath, bryncyn; crug, twmwlws, bedd'; neu, 'eisteddfan'. Clip-yr-orsedd 1838 AO.

Waen Bryn Gwenith 414m SH 747674

Waen 'uwchdir gwastad' + *bryn* 'bryncyn' + *gwenith* 'yd, grawn'. Efallai fod llethrau isaf agwedd deheuol yn ddigon cynnes i dyfu gwenith gwydn yma yn yr oes Neolithig. Gall fod yn gyfeiriad at naill ai Gwenith Ysgyfarnog/Gwenith yr Hydd: *Fagopyrum esculentum*; neu, Gwenith y Brain: *Sedum anglicum* - planhigyn mynydd cyffredin. Yn anghywir fel Bryn-gwynedd 1838 AO. Bryn Gwenithe 1589 Baron Hill, Bryn Gwenith 1746 Swyddfa Cofnodion Sir Gaernarfon.

Moel Faban 409m SH 634679

Moel 'bryn crwn' + *Maban*, sef enw personol. Yn wreiddiol, Maban neu Mabon oedd enw ffigwr chwedlonol sy'n tarddu yn ôl pob tebyg o'r duw 'Celtaidd' Mapon(a). Yr oedd cawr o'r un enw hefyd. Fe welir mynwent carnau Oes Efydd fawr ar hyd y gefnen; ymhellach i lawr ar y llethrau sy'n wynebu'r de, gallwch nodi'r aneddiadau a oedd yn ôl pob tebyg yn defnyddio'r carneddau. Cymharer a Loch Mabenstone, Clochmabenstane 1398, ar lannau'r Solway yn yr Alban. Moel Faban 1838 AO.

Craig Celynin 407m SH 747734

Enwyd y graig ar ôl Celynin, Sant 6ed ganrif; mae eglwys Celynin [Llangelynin], yn (SH 771736). Yr oedd yna boblogaeth go fawr yn yr ardal yn ystod y cyfnod eglwysig cynnar yng Nghymru.

Pen Ardda 402m SH 761665

Ardda(u) yw lluosog y gair *ardd* 'bryn, uchder, craig uchel', cyfystyr a Chernyweg *arth* 'uchder'. Mae'n debyg mai dyma'r Ardeu a grybwyllir yn Siarter Aberconwy 1198; rhai o'r enghreifftiau eraill yw, Ardev 1278 Litterae Wallia, Arthe 1563/4 Cofrestr Plwyf Conway, Arthey 1583 Llawysgrifau

Wynnstay, Arddey 1650 Llawysgrifau Porth yr Aur.

Mynydd Deulyn 400m SH 759613

Enw sydd yn dangos bod y mynydd rhwng y ddau + (l)lyn; hynny yw, rhwng Llynau Crafnant a Geirionydd.

Pen y Gaer 390m SH SH 750693

Fe welir y *caer* 'amddiffynfa' ar ddiwedd y crib amlwg, ac y byddai'r caer yn edrych allan ar draws dyffryn y Conwy yn edrych yn un syfrdanol. Enwedig gyda thri arglawdd enfawr yn ychwanegu at serthrwydd y llethrau o'i gwmpas.

Craig Hafodwen 381m SH 732754

Craig 'maen' + *hafod* 'llety haf' + (*g*)*wen* 'gwyn, golau'. Mae'r gair *hafod* yn un digon cyfarwydd yn y mynyddoedd. Craig y fodwen 1838 AO.

Y Foel Lus 362m SH 733762

Mae'r gair Cymraeg *llus* 'aeron duon' yn dynodi'r planhigyn *Vaccinium myrtillus*; sy'n gysylltiedig â'r Gernyweg *lus* a'r Wyddeleg *lus* 'planhigyn' yn air sydd yn dynodi llystyfiant yn gyffredinol. Fodd bynnag, dywedwyd mai llygriad y gair Saesneg *loose* 'rhydd' sydd, i ddisgrifio'r sgrî a geir ar lethrau'r bryn. Foel Llys 1838 AO.

Cerrig y Ddinas 312m SH 753739

Cerrig 'meini' + *dinas* 'amddiffynfa'. Gyda hyd at bedwar arglawdd uwch y llechweddau a chreigiau serth, roedd y fryngaer ar y copa yn un cadarn iawn. Anodd penderfynnu os yw'r gair *cerrig*, lluosog y term *carrig*, yn cyfeirio at y clogwyni neu'r adeiladwaith.

Ar ddiwedd y goresgyniad Rhufeinig yng Ngogledd Cymru ac enwedig ar ôl i'r milwyr adael yn 407, yr oedd cryn dipyn o bryder ynglŷn â'r ymosodiadau ar hyd yr arfordir gan lwythi Gwyddelig, ac ymosodwyr o'r Gogledd. Mewn gwirionedd, yr oedd rhai o'r ymosodiadau yn datblygu i ymdrechion i feddiannu tir i'w setlo, ymdrechion a oedd yn llwyddiannus yn rhai manau. Hefyd yr oedd lladron lleol a drwgweithredwyr yn crwydro o gwmpas y tiroedd, ac yr oedd nifer o'r 'frenhinoedd' cynnar yn ddim fwy nag arweinwyr dylanwadol bandiau rhyfel. Oherwydd yr ansicrwydd, datblygodd ffermydd a phentrefannau amddiffynnol ac ailfeddiannwyd llawer o fryngaerau, gyda rhai rhannau'n cael eu hailgynllunio a'u cryfhau.

Maen Esgob 300m SH 749759

Oedd gan y *maen* yma ffurf arbennig, yn debyg i ffurf het esgobol tybed; neu faen i ddynodi ffin tir yr esgob - yr oedd yna dir yn yr ardal yn perthyn i esgobaeth Bangor. Gwelir anheddiad cyn-hanesyddol gerllaw.

Y Grinllwm 287m SH 777624

Y geiriau *crin* 'gwywo, brau, crebachlyd, creisionllyd' + *llwm* 'noeth, diffrwyth' yn enw da ar dir gwael iawn gyda thueddiad i 'losgi' y llystyfiant mewn cyfnodau sych. Hefyd, gellid disgrifio'r sychu, creisio a'r holltau yn y mawn a'r mwd mewn ardaloedd corsïog gyda'r term *crin*, Gwyddeleg Cynnar *crin* 'brau, sych'. Cofnodwyd Crinllwm fel Clunllom ar fap AO 1838.

Alltwn 255m SH 746774

Allt 'llethr' + (*g*)*wen* 'gwyn, golau', ble mae llethrau deheuol y bryn serth yn derbyn yr haul.

Craig y Fedwen 252m SH 756763

Craig 'clogwyn' + *y* + *bedwen* - unigol benywaidd y gair *bedw*: sef y *Betula pendula*. Mae'r gair *bedw* yn gysylltiedig a'r Hen Gernyweg *bedwen*, Gwyddeleg *brethe*, Celteg **betu*; o'r Indo

Ewropeaidd gweiddiol **buet*, sef ystor neu rhiwsyn, fel yn y Lladin *betulla* 'bitwmen o'r bedw, pyg'.

Mynydd Garthmyn 251m SH 805564

Wedi'i enwi ar ôl y fferm Garthmyn, gyda dwy elfen iddo, y ddwy ag ystyron lluosog a allai fod yn berthnasol i'r lleoliad. Y *garth* yn yr elfen gyntaf yw naill ai: a) 'crib mynydd, pentir, bryn; llethr coediog, coetir, dryslwyn, tir heb ei drin'. Neu: b) 'man amgáu, gardd'. Os nad llygriad y gair *maen* 'carreg, craig' yw'r ail elfen, tybed os *myn* sydd yma, sydd yn rhoi naill ai: i. 'lle, lleoliad'. Neu: ii. 'gafr ifanc'. 'tyddyn garthmayn uchaf' 1531 Llawysgrifau Mostyn, Garthmin 1789 Llawysgrif Maenan, AO Garth-myn 1838.

Penmaenbach 245m SH 748780

Mae'r gair *bach* yn cyfeirio at y ffaith mai dyma'r un 'lleiaf, isaf' o ddau bentir nodedig; sef y *pen* 'copa, brig' + *maen* 'craig'. Dilynodd yr llwybrau hynafol, a'r ffyrdd gwreiddiol, cwrs mewndirol go uchel yn hytrach na cheisio trafod y llethrau serth a geir o gwmpas y brynau hyn. Penmenuechan 1586, Penmen Vaughen Mount 1698 John Ogilby, Pen Maen bychan 1722.

Mynydd y Dref 244m SH 760778

Dyma'r mynydd neu fryn agosaf at *dref* 'anheddiad' Conwy. Mae ei safle strategol wedi golygu ei fod wedi bod yn safle pwysig ers canrifoedd ac mae'n safle bryncyn o'r Oes Haearn. Mae'r ddinas neu fryngaer, a enwir Seion Caer Castell neu Gastell Caer Leion yn un eithaf mawr, yn mesur 320m wrth 100m, gyda 20 o dai neu strwythurau crwn ar y tu mewn.

Cogwrn 203m SH 757767

Fel enw ar dirffurf, ystyr *cogwrn* i'w 'cnwc, pentwr, twmpath', a dyma'r union beth sydd ar gael yma. Kay yn y kogwrne 1499, Kay gogwrn 1515 Llawysgrifau Penrhyn.